




Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys

Adolygiadau Cwynion SCHTh Adroddiad Diweddaru cyfnod adrodd Gorffennaf - Medi 2025 Chwarter 2

Cynnwys

Nifer yr adolygiadau a dderbyniwyd	2
Amseroldeb	Error! Bookmark not defined.
Adolygiadau a gafwyd yn afresymol ac anghymesur	2
Rheswm dros gynnal adolygiadau	Error! Bookmark not defined.
Goruchwyliaeth	Error! Bookmark not defined.

Nifer yr adolygiadau a dderbyniwyd

Yn ystod y cyfnod hwn, derbyniodd SCHTh 9 cais am adolygiad, sydd 2 yn fwy na'r un cyfnod adrodd y llynedd.

Amseroldeb

Cyfrifir amseroldeb ar ôl derbyn cais am adolygiad. Bydd Gweithiwr Achos SCHTh yn gwirio dilysrwydd yr adolygiad cyn gofyn i'r Adran Safonau Proffesiynol am y ffeil achos. Bydd gan yr Adran Safonau Proffesiynol 5 diwrnod gwaith i roi'r ffeiliau achos i SCHTh, sydd yna'n cael eu gwirio a'u hanfon at yr adolygydd Annibynnol.

Unwaith mae'r adolygydd annibynnol yn dychwelyd yr adolygiad, bydd Gweithiwr Achos SCHTh yn ystyried y canfyddiadau i ddod i benderfyniad. Sicrheir ansawdd adolygiadau cyn eu hanfon at yr achwynydd.

Ar gyfartaledd, cymerir 18 diwrnod yn llai na'r un cyfnod y llynedd i gwblhau adolygiad.

O'r amser y mae SCHTh yn cyflwyno adolygiad i Sancus, ar gyfartaledd, mae'n cymryd 5 diwrnod gwaith i ddychwelyd yr adolygiad.

Adolygiadau a gafwyd yn afresymol ac anghymesur

Yn ystod y cyfnod hwn, mae SCHTh wedi cynnal 2 adolygiad, sydd 1 yn fwy na'r flwyddyn gynt.

Cewch hyd i ddata Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu ar ei gwefan fan hyn: [Llyfrgell Cyhoeddiadau | Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu](#)

Rheswm dros gynnal adolygiadau

1. Cyfeirnod cwyn: PCC-10062025-2

Nid oedd honiad gan yr achwynydd wedi'i drin fel rhan o'r gŵyn. Nodwyd fod yr achwynydd wedi cyflwyno cwyn newydd i'r Adran Safonau Proffesiynol. Gan hynny, argymhellwyd bod yr honiad a gollwyd yn cael ei ystyried o dan y gŵyn newydd.

Ymateb yr Adran Safonau Proffesiynol

Derbyniodd yr Adran Safonau Proffesiynol yr argymhelliad gan nodi y byddai'r honiad a gollwyd yn ffurfio rhan o'r gŵyn newydd.

2. Cyfeirnod cwyn: PCC-19082025-2

Ystyriodd yr adolygydd bod yr achwynydd wedi cyflwyno cwestiynau a oedd heb eu hateb a bod cyfle wedi'i golli ar gyfer dysgu pellach. Gan hynny, argymhellwyd bod y triniwr cwynion yn ymateb i'r 10 cwestiwn a holwyd gan yr achwynydd a bod canllawiau ar ddiffiniad Gwasanaeth Erlyn y Goron o 'batrwm ymddygiad' yn cael ei rannu ymysg yr holl swyddogion.

Ymateb yr Adran Safonau Proffesiynol

Derbyniodd yr Adran Safonau Proffesiynol yr argymhelliad i ymateb i 10 cwestiwn yr achwynydd. Fe wnaethant benderfynu na fyddai'n briodol rhannu canllawiau â'r Heddlu gan fod barn wahanol am patrwm ymddygiad rhwng GEG a'r swyddogion unigol a oedd yn gysylltiedig â'r ymchwiliad. Penderfynodd yr Adran Safonau Proffesiynol nad oedd dim byd i awgrymu problem ar draws yr heddlu, a nododd fod hyfforddiant Stelcio ac Aflonyddu eisoes wedi'i gyflwyno yn 2023-2024.

Pan ofynnwyd am eglurder gan yr SCHTh, rhoddodd y adran Safonau Proffesiynol wybodaeth ychwanegol bod offeryn sgrinio achosi hel cymdogion yn cael ei weithredu ac mae hyfforddiant wedi cael ei roi i swyddogion. Rhannodd y adran Safonau Proffesiynol hefyd y dysgu a gynigir gyda'r arweinwyr priodol.

Goruchwyliaeth

Yn ystod y broses adolygu, bydd y cyrff plismona lleol yn nodi anghysonderau sydd ddim yn newid y ffaith bod y canlyniad yn rhesymol a chymesur, ond lle y gallai'r gwasanaeth wrth ymdrin â'r gŵyn gael ei wella. Mae'r broses adolygu'n rhoi cyfle i gyrff plismona lleol fynd i'r afael â'r anghysonderau hynny, mewn achosion unigol, gyda'r awdurdodau priodol [IOPC-Focus-19-Reviews \(18\).pdf](#)

Roedd 2 adolygiad yn ystod y cyfnod hwn lle yr ystyriwyd y gallai'r gwasanaeth wrth ymdrin â'r gŵyn fod wedi bod yn well.

Themâu a nodwyd fel goruchwyliaeth:

- Amseroldeb o ran cwblhau cwynion.
- Diweddariadau statudol 28 diwrnod heb eu darparu.
- Diffyg cyswllt o du allan i atodlen 3 ac oedi o ran cysylltu am dros fis unwaith y cafodd ei bennu i Arolygydd ar gyfer triniaeth heblaw drwy ymchwiliad.
- Ni hysbyswyd yr iaith a ddefnyddiwyd o fewn gohebiaeth i'r achwynydd ac o fewn y llythyr canlyniad gan drawma.

- Atebolrwydd goruchwyliol a diffyg eglurder a chyfathrebu a arweiniodd at y gŵyn yn cael ei gwneud.

Mae SCHTh hefyd yn cofnodi unrhyw arfer gorau a nodwyd wrth gynnal adolygiad. Ni nodwyd unrhyw feysydd arfer gorau o fewn y cyfnod hwn.
